Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y dilyniant: Monitro gan Estyn

## 'Cynghrair Sgiliau Ansawdd' Coleg Caerdydd a'r Fro
## 47 Heol Colcot
## Y Barri
## CF62 8HJ

## Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Y tîm monitro**

| | |
|---|---|
| Mark Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Sandra Barnard | Arolygydd Tîm |
| Steve Bell | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |

## Canlyniad y monitro

Bernir bod Cynghrair Sgiliau Ansawdd Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC QSA) wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd ym Mehefin 2014.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r darparwr o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### Argymhelliad 1: Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi ymhellach

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Yn y cyfnod 2013-2014, cwblhaodd dysgwyr ar raglenni Prentisiaeth Sylfaen a Phrentisiaeth eu fframweithiau hyfforddi ar gyfraddau'r un fath â chymaryddion cenedlaethol, neu ychydig yn uwch. Cwblhaodd dysgwyr ar raglenni Prentisiaeth Uwch eu rhaglenni hyfforddi ar gyfraddau ychydig islaw'r cymharydd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr ar y rhaglenni hyn yn fach.

Mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu Prentisiaethau Sylfaen a'u Prentisiaethau wedi gwella'n sylweddol. Mae Prentisiaethau Sylfaen wedi cynyddu pum pwynt canran yn y cyfnod 2011-2014 ac mae Prentisiaethau'n dangos gwelliant o ddau bwynt canran yn yr un cyfnod. Mae data diweddaraf y consortiwm, heb ei gyhoeddi, ar gyfer 2014-2015, yn dangos tuedd barhaus o welliant. Mae data presennol heb ei gyhoeddi ar gyfer Prentisiaethau Uwch yn dangos ychydig o ostyngiad yn y gyfradd lwyddo ar gyfer 2014-2015.

Mae mwyafrif partneriaid y consortiwm yn dangos tueddiadau cadarnhaol yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o feysydd dysgu, mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi ar gyfraddau islaw'r cymaryddion cenedlaethol. Mae hyn yn wir am ddysgwyr mewn rhai partneriaid sy'n dilyn rhaglenni adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig ac addysg a hyfforddiant a rhaglenni gwallt a harddwch.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu fframweithiau erbyn eu dyddiad gorffen disgwyliedig. Mae nifer y dysgwyr sy'n gorffen eu fframweithiau yn sylweddol y tu hwnt i'w dyddiad gorffen disgwyliedig wedi gostwng yn sylweddol rhwng 2011-2015 ac mae bellach yn isel.

### Argymhelliad 2: Parhau i wella cysondeb yr addysgu a'r asesu

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae'r darparwr arweiniol a'i bartneriaid wedi gwneud cynnydd da o ran gwella ansawdd yr addysgu, yr hyfforddi a'r asesu.

Mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu ac adnoddau dysgu yn ystod sesiynau sy'n cael eu haddysgu. Maent yn cynllunio'u gwersi'n dda gan ddefnyddio cynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith cynhwysfawr. Mae gan athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr wybodaeth dda am eu maes galwedigaethol neu faes pwnc. Mewn sesiynau sy'n cael eu haddysgu, mae tiwtoriaid yn paru tasgau ymarferol yn fedrus â sesiynau theori. Er enghraifft, yn ystod sesiwn hyfforddi ar gymhwyso rhif, mae dysgwyr yn canfod sut i fesur y perimedr a'r arwynebedd wrth osod llawr newydd ac yn cyfrifo sut i gadw costau'n isel tra'n parhau i wneud elw wrth lunio dyfynbrisiau ar gyfer cwsmeriaid. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn ymgysylltu'n llawn â gweithgareddau hyfforddi ac mae ganddynt ddiddordeb yn eu dysgu.

Mae'r darparwr arweiniol wedi rhoi nifer o strategaethau ar waith i wella ymhellach a sicrhau cysondeb mewn arferion asesu ar draws y consortiwm. Maent yn cynnal cyfarfodydd safoni gyda phob un o'r partneriaid i drafod materion a rhannu arfer orau mewn arfer asesu. Wedyn, caiff y wybodaeth hon ei rhannu â'r holl reolwyr ac aseswyr. Mae'r darparwr arweiniol a'r partneriaid wedi dechrau cynnal arsylwadau cymheiriaid a sicrhau ansawdd safon y dystiolaeth mewn portffolios Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (CGC). Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael ei ymgorffori'n llawn ar draws y cwricwlwm eto.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn cynllunio eu gweithgareddau asesu'n dda. Caiff medrau ymarferol dysgwyr eu hasesu'n dda.

Mae gosod targedau wedi gwella. Mae aseswyr yn rhoi targedau clir i ddysgwyr i'w galluogi i baratoi ar gyfer eu hasesiad nesaf. Mewn rhai achosion, mae aseswyr yn dwyn dyddiadau cwblhau targedau ymlaen gan fod dysgwyr yn gwneud cynnydd yn gyflymach na'r disgwyl. Mae bron pob un o'r aseswyr yn rhoi adborth cadarnhaol ac adeiladol i ddysgwyr ar ddiwedd eu gweithgaredd asesu i'w helpu i wella a gwneud cynnydd tuag at eu nod cymhwyster neu CGC lefel uwch.

**Argymhelliad 3: Gwneud yn siŵr bod systemau ansawdd yn cael effaith lawn ar yr ymdrech i godi safonau ar gyfer pob dysgwr**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Ar draws y consortiwm, mae diwylliant gwell o weithio mewn partneriaeth a ffocws clir ar wella perfformiad dysgwyr. Mae'r consortiwm wedi diwygio a chryfhau ei weithdrefnau a'i dull o fonitro ansawdd a gwelliant. Mae hyn wedi arwain at gysondeb gwell ar draws partneriaid a gwelliannau yn y cyfraddau y mae dysgwyr yn cyflawni eu fframweithiau hyfforddi. Mae'r darparwr arweiniol yn canolbwyntio'n dda ar wella ansawdd yr hyfforddiant ar draws pob un o'r partneriaid. Mae hyn wedi arwain at fwy o gysondeb yn y ffordd y mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr y consortiwm yn cynorthwyo dysgwyr i gyflawni eu fframweithiau hyfforddi a gwella'u medrau llythrennedd a rhifedd.

Mae'r consortiwm wedi gwella'r ffordd y mae'n casglu, dadansoddi a rhannu data perfformiad dysgwyr gyda phartneriaid. Caiff y data trylwyr hwn ei ddefnyddio'n effeithiol i ysgogi gwella ansawdd a gwella deilliannau dysgwyr. Defnyddir cyfarfodydd consortiwm misol yn dda i rannu data perfformiad ar draws partneriaid a

nodi tueddiadau perfformiad yn glir. Mae'r cyfarfodydd hyn yn effeithiol o ran rhannu ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â'r rhan fwyaf o agweddau ar hyfforddiant, gan gynnwys nodi rhannu arfer dda. Mae'r consortiwm wedi gwella'i broses arsylwi cymheiriaid ymhellach. Mae'r darparwr arweiniol yn defnyddio'r wybodaeth o arsylwadau yn dda i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella mewn addysgu, hyfforddi ac asesu ar draws y consortiwm. O ganlyniad i ddadansoddi'r wybodaeth hon, caiff datblygiad proffesiynol parhaus ei drefnu i gynorthwyo athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ymhellach yn eu rolau.

**Argymhelliad 4: Gwneud yn siŵr bod pob adran o'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi unrhyw ddiffygion a'r camau sydd eu hangen ar gyfer gwella yn glir**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae'r darparwr arweiniol wedi cryfhau ei brosesau ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae adroddiad hunanasesu'r consortiwm yn ddogfen gynhwysfawr a chlir sy'n defnyddio ystod eang o wybodaeth a gafwyd o bob darparwr partner. Mae'r darparwr arweiniol yn cynnal adolygiad defnyddiol o adroddiad hunanarfarnu pob partner i nodi unrhyw welliannau angenrheidiol. Maent yn rhoi adborth clir i'r partner ar feysydd i'w gwella ac awgrymiadau defnyddiol ynghylch tystiolaeth a fyddai'n dangos bod gwelliannau wedi digwydd. Caiff data yn ymwneud â pherfformiad y partner ei adolygu a'i gofnodi'n glir yn ystod yr adolygiadau hyn.

Mae'r darparwr arweiniol yn casglu ac adolygu ystod eang o ddata trylwyr ar berfformiad dysgwyr a gwybodaeth gan aelodau'r consortiwm. Caiff y data hwn ei ddadansoddi a'i adolygu'n drylwyr trwy gydol y flwyddyn. Mae'r darparwr arweiniol yn defnyddio'r data hwn yn dda i lywio adroddiad hunanasesu'r consortiwm, adolygu perfformiad a gosod targedau ar gyfer gwella. Mae'r rhan fwyaf o adrannau'r adroddiad yn cynnwys sylw arfarnol clir ynghylch effaith gweithgareddau datblygu'r consortiwm. Mewn ychydig iawn o adrannau, nid yw'r meysydd i'w gwella a chamau gweithredu ar gyfer gwella yn ddigon clir.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r consortiwm yn offeryn effeithiol o ran helpu'r darparwr arweiniol i adolygu perfformiad y consortiwm a'i aelodau. Defnyddir yr adroddiad yn dda fel dogfen gwella ansawdd allweddol ac mae'n cysylltu'n glir â chynlluniau datblygu ansawdd. Mae cynlluniau datblygu ansawdd yn nodi meysydd a strategaethau ar gyfer gwella yn glir.

**Argymhelliad 5: Gwneud mwy i ymgorffori llythrennedd a rhifedd mewn rhaglenni hyfforddi**

Cynnydd cryf o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad.

Mae'r darparwr arweiniol wedi canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu medrau athrawon i helpu dysgwyr i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn darparu ystod eang o gyfleoedd datblygiad proffesiynol, y mae pob un o'r partneriaid yn manteisio arnynt. Mae'r gweithgareddau datblygu hyn yn canolbwyntio'n dda ar wella medrau staff mewn defnyddio cynlluniau marcio llythrennedd a rhifedd, gosod a monitro targedau clir a heriol o ran cynnydd dysgwyr, ac ennill dyfarniadau medrau hanfodol ymarferwyr.

Mae llythrennedd a rhifedd bellach yn elfennau allweddol ym mhroses sicrhau ansawdd y darparwr arweiniol. Mae hyn yn cynnwys ffocws craffach ar lythrennedd a rhifedd mewn addysgu, hyfforddi ac asesu arsylwadau cymheiriaid. Mae prosesau sicrhau ansawdd y consortiwm yn effeithiol o ran nodi anghysondebau yn y ffordd y mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn helpu dysgwyr i ddatblygu llythrennedd a rhifedd. Mae’r consortiwm wedi datblygu cofnod cynnydd llythrennedd a rhifedd defnyddiol yn ddiweddar sy’n rhoi cyfleoedd da i athrawon, hyfforddwyr, aseswyr a dysgwyr nodi meysydd i’w datblygu ac olrhain a monitro eu datblygiad a’u cynnydd.

Mae athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr ar draws pob un o’r partneriaid bellach yn defnyddio’r cynllun marcio llythrennedd yn fwy cyson. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall a chywiro eu camgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadeg a gwella eu gwaith ysgrifenedig. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw partneriaid yn defnyddio’r cynllun marcio rhifedd yn gyson eto i helpu pob dysgwr i wella’i fedrau rhifedd.

**Argymhelliad 6: Integreiddio diwylliant Cymru ac ADCDF mewn rhaglenni hyfforddi ymhellach**

Cynnydd cryf o ran mynd i’r afael â’r argymhelliad.

Mae’r darparwr wedi ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau sydd wedi gwella integreiddio diwylliant Cymru ac ADCDF mewn rhaglenni hyfforddi. Mae’r naill destun a’r llall yn eitemau rheolaidd ar yr agenda yng nghyfarfodydd partneriaeth y darparwr arweiniol. Mae hyn wedi helpu i gynnal ffocws ar wneud yn siŵr bod partneriaid yn cymryd rhan mewn cryfhau’r agweddau hyn ar eu gwaith.

Mae’r darparwr arweiniol wedi cynnal arolygon defnyddiol o alluoedd athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr yn y Gymraeg ar draws y consortiwm. Defnyddiwyd arolygon yn dda i adolygu gallu cyflogwyr i gefnogi Cymraeg dysgwyr yn y gweithle. Mae’r arolygon hyn wedi helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth staff o’r iaith Gymraeg, a’u diddordeb ynddi. Mae hyn wedi arwain at ryw draean o staff yn gofyn am ragor o hyfforddiant i wella eu medrau Cymraeg. Mae’r darparwr arweiniol wedi cyflwyno digwyddiadau hyfforddi i hyrwyddo’r defnydd o’r iaith Gymraeg ar draws pob darparwr partner. Mae’r digwyddiadau hyn wedi bod yn effeithiol o ran annog a chynorthwyo athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr i ddefnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac mewn gweithgareddau gyda dysgwyr. Mae’r rhan fwyaf o bartneriaid wedi datblygu adnoddau dysgu defnyddiol i hyrwyddo ac annog defnyddio’r Gymraeg. Maent yn rhannu’r adnoddau hyn o fewn y bartneriaeth ac mae wedi helpu i greu ystod ddefnyddiol o ddeunyddiau dysgu i alluogi staff i hyrwyddo’r dimensiwn Cymreig mewn adolygiadau, aseiniadau a gweithgareddau gyda dysgwyr.

Mae’r darparwr wedi cynnal archwiliad o ddarpariaeth ADCDF ar draws yr holl bartneriaid. Mae hyn, ynghyd ag arsylwadau staff, wedi eu galluogi i fonitro pa mor dda y mae staff yn cynllunio gweithgareddau ADCDF ac annog dysgwyr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ADCDF. Mae’r rhan fwyaf o staff yn cyflwyno testunau’n dda yn ystod adolygiadau ac asesiadau ac yn annog dysgwyr i ystyried ADCDF wrth wneud aseiniadau a gwaith ysgrifenedig. Mae hyn yn helpu dysgwyr i ddeall perthnasedd ADCDF i’w gweithgareddau yn y gweithle. Mae’r rhan fwyaf o athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr wedi gwella’u hyder mewn ADCDF a datblygu

dealltwriaeth dysgwyr o ADCDF. Mae bron pob un ohonynt yn defnyddio adnoddau'n dda i drafod datblygu cynaliadwy. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, mae staff yn colli cyfleoedd i wella dealltwriaeth dysgwyr o ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Argymhellion**

Er mwyn cynnal y cynnydd hwn, a gwella arno, dylai'r darparwr barhau i gynnal lefel y cynnydd y mae eisoes wedi'i wneud, a pharhau i fynd i'r afael â'r argymhellion arolygu hynny lle mae angen gwneud rhagor o gynnydd.